| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Cyngor |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | 14 Mai 2026 |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd Sharon Doleman,<br>Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy a Chyfathrebu |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth yr Economi a Diwylliant |
| **SWYDDOGION CYSWLLT:** | Pennaeth Adain - Datblygu Economaidd<br>Rheolwr Twristiaeth ac Adfywio |
| **TESTUN:** | Ymgynghoriad ar Ardoll Ymwelwyr |
| **ADRODDIAD EITHRIEDIG:** | Nac ydy |
| **RHANBARTH ETHOLIADOL:** | Pob un |

## 1. CRYNODEB A'R PWYNTIAU ALLWEDDOL

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr dewisol. Diben yr ymgynghoriad yw llywio proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor drwy gasglu barn preswylwyr, ymwelwyr a busnesau ynghylch a ddylid rhoi'r ardoll ar waith neu beidio, sydd wedi'i ddylunio i gefnogi twristiaeth gynaliadwy a gwella isadeiledd lleol a gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Ar 24 Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Cymeradwywyd y Bil gan Senedd Cymru ar 8 Gorffennaf 2025 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025. Mae'r Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth newydd i gofrestru llety gwyliau yng Nghymru ac yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi'r pŵer dewisol i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll ymwelwyr dros nos.

1.3 Er bod yr Ardoll Ymwelwyr yn ddewisol, mae gofyn i bob awdurdod lleol ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu a ydynt am ei weithredu. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniad y Cyngor wedi'i lywio gan safbwyntiau lleol a bod lleisiau cymunedol yn cael eu hystyried wrth siapio sut fydd yr ardoll yn cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio.

1.4 O dan y ddeddfwriaeth, y dyddiad cynharaf y gallai awdurdod lleol fod wedi cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr yw Ebrill 2027, ar yr amod bod yr holl gamau ymgynghori a pharatoi gofynnol wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, rhaid rhoi o leiaf 12 mis o rybudd i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) cyn y gall ardoll ddod i rym, a rhaid rhoi 12 mis o rybudd i fusnesau hefyd. O ystyried y gofynion hysbysu hyn, y cynharaf y gellir cyflwyno'r ardoll yng Nghonwy yw Hydref 2027.

1.5 Bydd awdurdodau lleol yn gallu dewis defnyddio'r Ardoll Ymwelwyr ddwywaith y flwyddyn—ym mis Ebrill a mis Hydref. Os bydd CBSC yn penderfynu cyflwyno'r Ardoll, rhaid iddo hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru o'i fwriad erbyn diwedd mis Medi 2026 er mwyn ei chyflwyno o 1 Hydref 2027. Yn seiliedig ar ragolygon incwm cyfredol, gallai pob oedi o chwe mis arwain at golled amcangyfrifedig o tua £1 miliwn mewn refeniw posibl (gan ddefnyddio amcangyfrif ceidwadol).

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1** Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r ymgynghoriad arfaethedig ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr dewisol.

## 3. MANYLION YR ADRODDIAD

### 3.1 CEFNDIR YR ARDOLL

3.1.1 Cyflwynwyd y cysyniad o Ardoll Ymwelwyr fel rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy a sefydlu mecanweithiau ariannu tecach ar gyfer gwasanaethau lleol yr effeithir arnynt gan weithgarwch ymwelwyr.

3.1.2 Yn 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i roi pwerau dewisol i awdurdodau lleol i gyflwyno ardoll ymwelwyr. Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymateb llawn, ochr yn ochr â dros 2,500 o gyfranogwyr eraill. Cefnogodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr egwyddor y dylai twristiaid gyfrannu at gost cynnal a chadw isadeiledd lleol. Mae sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn tynnu sylw at yr angen i geisio nodi ffynonellau incwm newydd ar gyfer cefnogi'r economi ymwelwyr ac ymateb i heriau ariannol cynyddol i gynnal isadeiledd ledled y sir a'r cyfleoedd sy'n deillio o gael ymwelwyr yn ein hardal.

3.1.3 Cafodd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru), ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2024, ynghyd ag asesiadau effaith a memorandwm esboniadol. Cymeradwywyd y Bil gan y Senedd ar 8 Gorffennaf 2025 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025.

3.1.4 Mae’r Bil hefyd yn cyflwyno cofrestr genedlaethol o ddarparwyr llety ymwelwyr ar draws Cymru i gefnogi datblygiad polisi a gwella tryloywder. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion fel y math o lety a gynigir a’r lleoliad. Bydd cofrestru yn orfodol i’r holl ddarparwyr, p’un a yw eu hawdurdod lleol yn dewis rhoi’r ardoll ymwelwyr ar waith neu beidio. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn rheoli’r gofrestr, gyda’r broses gofrestru wedi’i threfnu i ddechrau yn nhymor yr hydref 2026.

3.1.5 Mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno i sefydlu cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr.

3.1.6 Lle bydd ardoll ymwelwyr yn cael ei gyflwyno, bydd y ffi yn cael ei godi fesul y pen, am bob noson, yn seiliedig ar y math o lety. Mae swm yr Ardoll wedi'i osod gan y Ddeddf, ac wedi'i bennu fel:

- £0.75 (£0.90 gan gynnwys TAW) fesul person y noson ar gyfer arosiadau mewn meysydd gwersylla (lleiniau ar gyfer pebyll) neu lety a rennir (hosteli, byncdai, bythau, neu ystafelloedd cysgu), gydag unigolion o dan 18 oed wedi'u heithrio.
- £1.30 (£1.56 gan gynnwys TAW) y pen am bob noson ar gyfer yr holl fathau
  eraill o lety ymwelwyr, sy'n berthnasol i bob grŵp oedran (gan gynnwys:
  - gwestai, gwely a brecwast, a thai llety, llety hunanarlwyo, fel bythynnod a chartrefi preifat (fel Airbnb)
  - lleiniau ar gyfer carafanau, cartrefi modur, neu faniau gwersylla
  - llety dros dro (fel podiau glampio ar gyfer gwyliau).

Lle mae darparwyr llety ymwelwyr wedi'u cofrestru ar gyfer TAW, bydd TAW yn berthnasol ar y cyfanswm cost a godir ar ymwelwyr, gan gynnwys unrhyw ardoll a drosglwyddir i'r ymwelydd.

3.1.7 Disgwylir i ddarparwyr llety gymhwyso'r ardoll yn uniongyrchol i ymwelwyr dros nos fel rhan o'u proses archebu neu dalu. Bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn cadw'r Gofrestr ac yn casglu'r ardoll ar ran awdurdodau lleol trwy system ffurflenni misol neu chwarterol. Ni fydd gan CBSC unrhyw rôl weithredol mewn cofrestru, gorfodi, na chasglu'r ardoll.

3.1.8 Mae rhai eithriadau yn berthnasol i'r ardoll, gan gynnwys:

a) pobl ifanc o dan 18 oed o'r gyfradd isaf o ardoll (hosteli, lleiniau gwersylla neu ystafelloedd a rennir)
b) arosiadau sy'n fwy na 31 diwrnod yn olynol mewn un archeb
c) llety yn unig neu brif breswylfa unigolyn
d) llety argyfwng neu dros dro a drefnir gan yr awdurdod lleol.

Mewn amgylchiadau brys eraill — fel pan mae'n amhosibl i unigolyn fyw yn ei brif breswylfa oherwydd digwyddiadau fel tân neu lifogydd — efallai gofynnir am ad-daliad gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae ad-daliadau hefyd ar gael i unigolion anabl sy'n mynd i gostau ardoll ychwanegol pan fyddant gyda gofalwr, ac i'r rhai sy'n ffoi rhag trais domestig.

3.1.9 Pe bai pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyflwyno ardoll ymwelwyr, amcangyfrifir y gellid cynhyrchu hyd at £33 miliwn yn flynyddol ar lefel Cymru gyfan. Pe bai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn dewis cyflwyno ardoll, mae'r Asesiad o Effaith Economaidd yn amcangyfrif y gallai gynhyrchu tua £2.1 miliwn y flwyddyn (heb gynnwys TAW) o dan y senario craidd (gweler yr Asesiad o Effaith Economaidd yn Atodiad A). Mae'r Asesiad o'r Effaith Economaidd wedi'i baratoi gan ddefnyddio dull achos gwaethaf, bwriadol geidwadol. Yn absenoldeb tystiolaeth leol gadarn, mae'r modelu'n tybio nad oes unrhyw dwf yn yr economi ymwelwyr ac yn defnyddio rhagdybiaethau

ymddygiadol gofalus ynghylch ymateb ymwelwyr i'r ardoll. O ganlyniad, gall refeniw gwirioneddol fod yn uwch a'r effeithiau'n llai amlwg. Byddai canlyniadau refeniw hefyd yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel:

- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Amrywiadau tymhorol
- Mathau o lety a chyfraddau meddiannu

3.1.10 Mae'r dadansoddiad yn tybio y gallai cyflwyno'r ardoll arwain at ostyngiad bach yn y galw am lety dros nos, a amcangyfrifir rhwng 1.1% a 1.2%, yn dibynnu ar yr ymwelydd a'r math o lety. Byddai maint yr effaith hon hefyd yn dibynnu a yw awdurdodau lleol cyfagos yn cyflwyno ardoll; mae'n debygol y bydd yr effeithiau'n is os yw'r ardoll wedi'i mabwysiadu'n eang.

3.1.11 Amcangyfrifir y gallai'r gostyngiad hwn yn y galw arwain at ostyngiad gros yng ngwariant ymwelwyr o tua £1.9 miliwn y flwyddyn (gan gynnwys TAW), neu £1.6 miliwn (heb gynnwys TAW). Yn ei dro, byddai hyn yn cyfateb i golled gros o rhwng £1.1 miliwn ac £1.3 miliwn mewn GYC blynyddol, a gostyngiad o 34 i 38 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE). Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli effaith llai o wariant gan ymwelwyr yn unig ac maent yn fwriadol ofalus, gan fod y dadansoddiad yn tybio y byddai'r holl wariant a gollwyd wedi digwydd o fewn Conwy fel arall.

3.1.12 Yn bwysig, mae'r asesiad hefyd yn ystyried yr effeithiau economaidd cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag ailfuddsoddi refeniw ardoll yn lleol. Ar ôl ystyried costau gweithredu Llywodraeth Cymru a rhagdybiaethau ceidwadol ynghylch gollyngiadau, amcangyfrifir y bydd gwariant ardoll yn cefnogi cynnydd o £0.9 miliwn i £1.0 miliwn mewn GYC blynyddol a 14 i 15 o swyddi FTE.

3.1.13 Pan ystyrir y gostyngiad yn y galw gan ymwelwyr ac ail-fuddsoddi refeniw ardoll gyda'i gilydd, amcangyfrifir mai'r effaith net o dan y senario craidd fydd gostyngiad bach o tua £0.3 miliwn mewn GYC blynyddol (tua 0.01% o economi Conwy) a gostyngiad net o 20 i 23 o swyddi FTE (tua 0.06% o gyfanswm cyflogaeth).

3.1.14 Fodd bynnag, mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn tynnu sylw ymhellach at y ffaith bod y dull hwn yn debygol o orbwysleisio effeithiau negyddol, gan nad yw'n ystyried:

- Twf yn yr economi ymwelwyr dros amser.
- Dadleoli gwariant ymwelwyr i weithgareddau neu leoliadau eraill yng Nghymru; na'r
- Potensial i fuddsoddi mewn ardoll i wella profiad ymwelwyr a chefnogi twf twristiaeth.

3.1.15 Mae tystiolaeth o gyrchfannau eraill sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr yn dangos twf parhaus o flwyddyn i flwyddyn mewn twristiaeth, gan awgrymu, yn ymarferol, y gallai refeniw ardoll a manteision economaidd gynyddu dros

amser. Byddai unrhyw dwf yn y dyfodol yn yr economi ymwelwyr yn helpu i wrthbwyso'r effeithiau andwyol cymedrol a nodwyd a byddai'n cynyddu lefel y refeniw a gynhyrchir gan yr ardoll.

3.1.16 Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data STEAM (Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough) i ddeall graddfa'r economi ymwelwyr yng Nghonwy. Mae STEAM yn offeryn modelu twristiaeth leol sefydledig sy'n amcangyfrif effaith economaidd trwy ddwyn ynghyd ddata llety, arolygon ymwelwyr, presenoldeb mewn atyniadau, a mewnbynnau o sectorau eraill. Yn ymarferol, mae STEAM fel arfer yn cynhyrchu amcangyfrifon uwch o niferoedd ymwelwyr a gwerth economaidd na ffynonellau arolwg cenedlaethol fel yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS) ac Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS), a ddefnyddir yn y prif ddadansoddiad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Pe bai data STEAM yn cael ei ddefnyddio i fodelu effaith ardoll ymwelwyr, byddai'r effeithiau amcangyfrifedig, cadarnhaol a negyddol, tua thair i bedair gwaith yn fwy na'r rhai sy'n deillio o ddata IPS a GBTS. Mae'r amrywiad perthnasol hwn yn tanlinellu'r ansicrwydd sydd yn gynhenid yn y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael ac yn tynnu sylw at gyfyngiadau rhagweld union effeithiau economaidd cyflwyno ardoll ar lefel leol.

3.1.17 Dylai Aelodau nodi, ar ôl ei chyflwyno, na ellir diwygio na dileu'r ardoll ymwelwyr am gyfnod o 12 mis o leiaf. Byddai unrhyw newidiadau dilynol yn destun proses ymgynghori ffurfiol bellach yn unol â gofynion deddfwriaethol.

## 3.2 RHEOLI A DEFNYDDIO'R ARDOLL

3.2.1 Byddai'r ardoll yn cael ei chlustnodi, gan fod y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid ei defnyddio ar gyfer 'rheoli a gwella cyrchfannau'. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau fel:

- cynnal a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.
- hyrwyddo neu gefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio.
- darparu, cynnal a gwella isadeiledd, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (p'un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol); a
- rheoli a lleihau pwysau sy'n gysylltiedig â niferoedd ymwelwyr.

3.2.2 Yn ystod Cyfnod 2 o broses graffu'r Senedd, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai unrhyw awdurdod lleol sy'n gweithredu ardoll ymwelwyr sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr. Byddai'r fforwm yn rhoi cyfle ystyrlon i fusnesau lleol, gweithredwyr twristiaeth a sefydliadau cymunedol gynghori ar ddefnyddio a dyrannu cyllid a gynhyrchir gan yr ardoll.
Mae'r argymhelliad hwn wedi'i wreiddio mewn egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd a'i nod yw:

- Hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd yn y ffordd y mae cronfeydd yn cael eu hystyried a'u dyrannu;
- Sicrhau bod cynigion buddsoddi yn cael eu llywio gan flaenoriaethau a mewnwelediad lleol; a

- Cryfhau ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â'r sector twristiaeth a chymunedau lleol.

Er y byddai'r fforwm yn chwarae rhan gynghori bwysig, byddai'r penderfyniad terfynol ynghylch sut y caiff refeniw ardoll ymwelwyr ei ddyrannu yn parhau gyda'r awdurdod lleol, yn unol â'i gyfrifoldebau statudol a'i drefniadau llywodraethu.

Disgwylir i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sefydlu Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr o fewn tri mis i'r ardoll ddod i rym.

3.2.3 Yn ogystal, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi manylion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn cyhoeddiad ar sut y mae refeniw o'r ardoll ymwelwyr wedi'i ddyrannu at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau.

3.2.4 Os bydd CBSC yn penderfynu cyflwyno ardoll, bydd angen ystyried costau disgwyliedig CBSC yn gweinyddu'r Fforwm ac yn rheoli'r arian a gynhyrchir gan yr ardoll. Er nad oes amcangyfrifon manwl o'r costau gweinyddol hyn ar gael eto, disgwylir y gellid talu am y gwariant hwnnw o refeniw'r ardoll.

3.2.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd rhaglen gyfalaf *Y Pethau Pwysig*, sydd wedi darparu buddsoddiad mewn isadeiledd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, yn parhau y tu hwnt i 2027. Mae'r rhaglen hon wedi bod o fudd sylweddol i Gonwy, gan gefnogi gwelliannau i gyfleusterau fel cysgodfannau ar y Promenâd, cyfleusterau cyhoeddus, pyllau padlo, arwyddion a isadeiledd hanfodol arall i ymwelwyr.

3.2.6 O ystyried y newid hwn yn y cyllid allanol sydd ar gael, rydym yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fyddai cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Nghonwy yn effeithio'n andwyol ar sefyllfa ariannu craidd y Cyngor. Yn benodol, byddai'r cyngor yn gofyn am sicrwydd na fyddai:

- setliad blynyddol y Cyngor,
- y grant poblogaeth uwch, na
- chymhwysedd y Cyngor i gael mynediad at gyllid allanol yn y dyfodol ar gyfer twristiaeth a rheoli cyrchfannau yn cael ei effeithio gan y penderfyniad i gyflwyno ardoll.

## 3.3 DIDDORDEB MEWN ARDOLLAU YMWELWYR

3.3.1 Mae'r diddordeb mewn ardollau ymwelwyr yn cynyddu ar draws y DU ac yn Rhyngwladol, er hynny, mae'r dulliau o'i weithredu yn amrywio. Mae'r datblygiadau hyn yn adlewyrchu diddordeb cynyddol mewn ardollau ymwelwyr fel ffordd o ariannu isadeiledd twristiaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar adnoddau'r llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog.

- Yr Alban: Pasiwyd yr Ardoll Ymwelwyr (yr Alban) ym mis Ionawr 2024, gan roi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno ardoll o 24 Gorffennaf 2026. Caeredin fydd yr awdurdod lleol cyntaf i weithredu ardoll, gyda chynlluniau ariannol

cyfredol y Cyngor yn nodi refeniw rhagamcanol o tua £90 miliwn dros y tair blynedd gyntaf.

- Lloegr: Nid yw’r deddfwriaeth genedlaethol sy'n galluogi ardoll ymwelwyr mewn grym eto. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth a fyddai'n rhoi'r pŵer i Awdurdodau Strategol Maerol gyflwyno ardoll ymwelwyr dros nos. Yn y cyfamser, mae dinasoedd fel Manceinion a Lerpwl yn cymhwyso taliadau ymwelwyr lleol trwy eu Hardaloedd Gwella Busnes Llety (ABIDs), yn hytrach na thrwy ardoll statudol.
- Gogledd Iwerddon: Er bod ardoll ymwelwyr wedi bod yn destun trafodaeth barhaus—yn enwedig o fewn Cyngor Dinas Belfast—nid oes unrhyw ddeddfwriaeth alluogi wedi'i chyflwyno i ganiatáu gweithredu ardoll o'r fath.
- Gweriniaeth Iwerddon: Ar hyn o bryd nid oes ardoll dwristiaeth genedlaethol mewn grym. Mae Cyngor Dinas Dulyn yn archwilio cyflwyno ardoll llety leol, ond byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth genedlaethol newydd cyn y gellid ei ddeddfu.

3.3.2 Defnyddir ardollau twristiaeth yn rhyngwladol fel mecanwaith polisi i helpu i reoli effeithiau ymwelwyr a chefnogi buddsoddiad mewn isadeiledd a gwasanaethau lleol. Mae tystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod ardollau ymwelwyr yn gweithredu mewn o leiaf 24 o wledydd ledled y byd, gan gynnwys amrywiaeth o gyrchfannau twristiaeth sefydledig ledled Ewrop, Asia, Gogledd America, a'r Dwyrain Canol. Mae enghreifftiau’n cynnwys Ffrainc, Yr Eidal, Sbaen, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Groeg, Awstria, Portiwgal, Gwlad Belg, Hwngari, Y Weriniaeth Tsiec, Y Swistir, Japan, Indonesia, Malaysia, Twrci, yr Unol Daleithiau, Canada, Mecsico, Yr Ariannin, Yr Emiradau Arabaidd Unedig, Moroco, Hong Kong a Lithuania.

Mewn rhai achosion, mae ardoll ymwelwyr yn y cyrchfannau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â chyfraddau is o TAW neu drethi defnydd cyfatebol ar lety ymwelwyr na’r hyn sy'n berthnasol yn y DU. O ganlyniad, gall y baich treth cyffredinol ar arosiadau dros nos y mae ymwelwyr yn eu hwynebu fod yn gymharol fras â'r hyn sy'n berthnasol yng Nghymru, neu mewn rhai amgylchiadau yn is na hynny. Mae'r cyd-destun rhyngwladol hwn yn darparu cefndir defnyddiol wrth ystyried effeithiau cystadleuol posibl, yn enwedig lle mae refeniw ardoll yn cael ei ailfuddsoddi i gefnogi ansawdd cyrchfannau a phrofiad yr ymwelydd.

3.3.3 Er nad yw ymgynghoriad ffurfiol wedi’i gynnal, mae’r sector twristiaeth yng Nghonwy wedi codi pryderon sylweddol am ardoll arfaethedig. Mae Twristiaeth Gogledd Cymru, sy’n cynrychioli dros 1,200 o fusnesau twristiaeth a lletygarwch ar draws y rhanbarth, wedi galw am oedi o ran ei weithredu nes bod cofrestr gynhwysfawr o fusnesau twristiaeth wedi’i sefydlu.

3.3.4 Mae arweinwyr twristiaeth yng Nghonwy wedi codi pryderon y gallai'r ardoll roi baich anghymesur ar weithredwyr gwledig a bach eu maint, y mae llawer ohonynt eisoes wedi'u heffeithio gan y rheol 182 diwrnod sy'n ei gwneud yn ofynnol i eiddo gael ei osod am o leiaf 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer cyfraddau busnes yn lle treth gyngor uwch. Maent hefyd yn ofni y gallai'r ardoll atal ymwelwyr—yn enwedig y rhai ar incwm is neu'r rhai sy'n dibynnu ar opsiynau cost is fel meysydd gwersylla a hosteli. Yn ogystal, efallai

y bydd darparwyr llety heb eu cofrestru yn gallu osgoi'r ardoll yn gyfan gwbl, gan greu maes chwarae anwastad. Mae nifer gynyddol o fudd-ddeiliaid yn lleisio pryderon ynghylch iechyd cyffredinol economi ymwelwyr yn dilyn pwysau cyfunol Covid-19, y rheol 182 diwrnod, a'r argyfwng costau byw.

3.3.5 Mae busnesau wedi codi pryderon sylweddol ynghylch y gofyniad i TAW gael ei gymhwyso i'r ardoll ymwelwyr, yn enwedig lle mae'r ardoll yn cael ei throsglwyddo i westeion fel rhan o gyfanswm y pris llety. Mae darparwyr llety llai wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai cynnwys yr ardoll yn eu trosiant trethadwy eu gwthio dros y trothwy cofrestru TAW, gan arwain at gyfrifoldebau gweinyddol ychwanegol a phwysau ariannol posibl. Mae llawer o weithredwyr wedi mynegi pryder y gallai'r newid hwn effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach, annibynnol sy'n gweithredu'n agos at y trothwy, a gallai effeithio ar eu cystadleurwydd o fewn economi ymwelwyr leol.

3.3.6 Mae'r sector twristiaeth hefyd wedi tynnu sylw at ddiffyg argaeledd data cadarn i asesu effeithiau posibl cyflwyno ardoll yn llawn. Felly, mae cynrychiolwyr y diwydiant yn galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i fabwysiadu dull gofalus, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i gefnogi gan ymgysylltu cynhwysfawr â budd-ddeiliaid, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am yr adroddiad hwn a'r broses ymgynghori arfaethedig.

### 3.4 Y BROSES YMGYNGHORI

3.4.1 Rhaid i'r Cyngor Llawn benderfynu ar gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Nghonwy. Cyn cyrraedd y penderfyniad hwn, rhaid cwblhau sawl cam statudol a chamau sy'n seiliedig ar ganllawiau:

- Rhaid hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn ffurfiol o fwriad y Cyngor.
- Rhaid cyhoeddi adroddiad yn amlinellu cynigion y Cyngor. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys amcangyfrif o'r refeniw ardoll disgwyliedig, manylion sut y bydd y refeniw yn cael ei ddefnyddio, a chynigion y Cyngor ar gyfer aelodaeth y Fforwm Ardoll Ymwelwyr. Yna rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i Awdurdod Cyllid Cymru. (*Gweler Atodiad D am Gynnig Ardoll Conwy*)
- Rhaid cynnal ymgynghoriad statudol.
- Yn unol â Chanllawiau Statudol, rhaid paratoi Asesiad o Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol.(Gweler Atodiad A am Asesiad o Effaith Economaidd ac Atodiad C am Asesiad Amgylcheddol)
- Rhaid cwblhau asesiadau effaith ychwanegol hefyd—megis Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiadau'r Iaith Gymraeg. (Gweler Atodiad B am Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar yr Iaith Gymraeg)

Mae'r dogfennau hyn yn rhan o'r pecyn cyffredinol a gyflwynir i'r Cyngor Llawn i ystyried a ddylid bwrw ymlaen i ymgynghori.

3.4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau dros ddefnyddio Egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori – y rhain yw:

- *Rhaid i'r ymgynghoriad fod ar gam ffurfiannol – awgrymir y dylai'r ymgynghoriad, yn amodol ar gymeradwyaeth, ddechrau ym mis Mai 2026.*
  - *Rhaid darparu digon o wybodaeth i ganiatáu ystyriaeth ddeallus o'r ymateb*

  *a gall gynnwys asesiad o'r effaith economaidd.*
- *Ystyriaethau eraill yw cynnwys gwybodaeth am y gwelliannau i reoli cyrchfannau a fyddai'n dod o'r cyllid ychwanegol a ddeilliai o'r Ardoll.*
- *Rhaid rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb*
- *Rhaid i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried adborth o'r ymgynghoriad.*

3.4.3

Dylai'r ymgynghoriad gyflwyno'n glir y rhesymeg dros gyflwyno ardoll, gan amlinellu'r manteision posibl a chynnig syniadau ar sut y gellid buddsoddi'r arian i gefnogi'r ardal leol, busnesau, trigolion ac ymwelwyr. Fel gyda phob ymgynghoriad, rhaid iddo ddarparu digon o wybodaeth i alluogi ystyriaeth wybodus ac adborth ystyrlon. Mae'r broses hefyd yn gyfle i gasglu mewnbwn a fydd yn cyfrannu at yr asesiadau a'r adroddiadau a gyflwynir i'r Cyngor pan fyddant yn ystyried a ddylid mabwysiadu'r ardoll.

3.4.4

Er bod yr Ardoll Ymwelwyr yn ddewisol, fel y nodir uchod, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn penderfynu a ddylid ei gweithredu. Yng Nghonwy, nod yr ymgynghoriad arfaethedig yw:

- Annog cyfranogiad eang gan fudd-ddeiliaid yn cynnwys busnesau twristiaeth, preswylwyr, ymwelwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol.
- Casglu adborth ar gyflwyniad posibl, dyluniad ac effaith disgwyliedig yr Ardoll Ymwelwyr, gan sicrhau bod unrhyw refeniw a gynhyrchir — os yw'n cael ei weithredu — yn cael ei ddefnyddio i wella'r profiad i ymwelwyr a gwella isadeiledd lleol.
  - Darparu tystiolaeth gadarn i gefnogi proses gwneud penderfyniadau CBSC

  o ran yr ardoll.
- Llywio datblygiad polisi a chynllunio gweithredol yn y dyfodol yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

3.4.5

Mae'n ofyniad statudol i'r Cyngor ymgynghori â'r grwpiau canlynol cyn cyflwyno ardoll ymwelwyr:
a) Trigolion lleol
b) Cynghorau Tref a Chymuned
c) Cynghorau Sir sy'n ffinio â Bwrdeistref Sirol Conwy
d) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
e) Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
f) Sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau twristiaeth neu fudd-ddeiliaid eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gan gynnwys cyrff sy'n hyrwyddo, rheoli neu gefnogi twristiaeth o fewn ardal y Cyngor
g) Darpar aelodau o Fforwm Partneriaeth yr Ardoll Ymwelwyr, lle nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys yn y categorïau a restrir uchod.

3.4.6

Yn ogystal â'r ymgyngoreion statudol a nodir uchod, ystyrir ei bod yn arfer da ymgysylltu ag ystod ehangach o fudd-ddeiliaid i gefnogi tryloywder,

cynhwysiant a gwneud penderfyniadau gwybodus. Gall hyn gynnwys darparwyr llety nad ydynt yn gysylltiedig â chyrff cynrychioliadol; busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth fel atyniadau ymwelwyr, gweithredwyr lletygarwch a manwerthu; sefydliadau busnes gan gynnwys Fforymau Busnes lleol a Ffederasiwn y Busnesau Bach; a sefydliadau treftadaeth, diwylliannol ac amgylcheddol perthnasol, fel Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chyrff rheoli tir neu gadwraeth eraill sy'n gweithredu o fewn y sir.

3.4.7 Gall ymgysylltu hefyd ymestyn i grwpiau cymunedol mewn ardaloedd sy'n profi lefelau uwch o weithgarwch ymwelwyr a, lle bo'n briodol, i ymwelwyr eu hunain, er mwyn casglu ystod eang o safbwyntiau a sicrhau bod yr ymgynghoriad yn adlewyrchu effeithiau posibl y dreth ar draws cymunedau, busnesau a'r economi ymwelwyr ehangach.

3.4.8 Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer CBSC yn cael ei gyflwyno trwy gyfuniad o weithgarwch mewnol dan arweiniad y Cyngor a chefnogaeth a gomisiynwyd yn allanol. Mae cyllid allanol wedi'i sicrhau i gefnogi'r gwaith hwn; fodd bynnag, gan fod y cyllid yn gyfyngedig o ran amser, rhaid ei ddefnyddio'n llawn erbyn mis Medi 2026. Gyda'i gilydd, bydd yr elfennau mewnol a chomisiynwyd yn cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori, sy'n cynnwys y cydrannau allweddol canlynol:

- Mapio budd-ddeiliaid Nodi ac ymgysylltu â'r holl grwpiau budd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys trigolion, busnesau twristiaeth a lletygarwch, darparwyr llety, sefydliadau cymunedol, ymwelwyr a phartneriaid strategol.
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu: Datblygu strategaeth glir sy'n nodi amcanion ymgynghori, cynulleidfaoedd targed, dulliau ymgysylltu, sianeli ac amserlenni.
- Datblygu holiaduron: Dylunio a chyflwyno holiadur ymgynghori strwythuredig a gynhelir ar wefan y Cyngor ac a hyrwyddir drwy sianeli cyfathrebu'r Cyngor, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a newyddlenni electronig.
- Deunyddiau ategol: Paratoi deunyddiau briffio, cwestiynau cyffredin, a gwybodaeth gyd-destunol i gefnogi cyfranogiad gwybodus yn yr ymgynghoriad.
- Cyflwyno ymgynghoriadau aml-sianel: Cyflwyno rhaglen ymgynghori naw wythnos gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys o leiaf bum digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb a gynhelir ar draws ardaloedd Dwyrain, Gorllewin, Gogledd, De a Chanol Bwrdeistref Sirol Conwy, ochr yn ochr â digwyddiadau ymgynghori ar-lein. Yn ogystal, bydd digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi'u targedu yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd a De'r sir i alluogi ymgysylltu penodol ac ystyrlon â'r sector lletygarwch a llety, gan gydnabod mai'r busnesau hyn sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf uniongyrchol gan y dreth arfaethedig.
- Casglu a dadansoddi data: Casglu a dadansoddi adborth meintiol ac ansoddol, gan gynnwys ymatebion i arolygon, data presenoldeb, gwybodaeth ddemograffig a chyflwyniadau ysgrifenedig neu lafar.
- Adrodd: Cynhyrchu adroddiad canfyddiadau interim yng nghanol y cyfnod ymgynghori, ac yna adroddiad ymgynghori terfynol cynhwysfawr yn nodi themâu allweddol, canlyniadau ac argymhellion.

3.4.9 Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno drwy raglen integredig o weithgareddau ymgysylltu a gynlluniwyd i sicrhau cyfranogiad ystyrlon gan bob grŵp budd-ddeiliaid. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:
a) Holiadur ar-lein wedi'i dargedu at fusnesau, trigolion ac ymwelwyr
b) Grwpiau ffocws wedi'u hwyluso gyda chynrychiolwyr o'r gymuned fusnes a sefydliadau lleol
c) Cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda budd-ddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr sector
d) Digwyddiadau ymgysylltu a gynhelir ym mhob un o bum ardal Fforwm Ardal Conwy, wedi'u hategu gan ddigwyddiad ar-lein i gynyddu hygyrchedd
e) Sesiynau ymgysylltu ledled y sir i gyrraedd croestoriad eang o gyfranogwyr f) Ymgysylltu â grwpiau partneriaeth strategol, gan gynnwys Partneriaeth Cyrchfan Conwy, Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035, a phartneriaethau rhanbarthol neu sector perthnasol eraill
g) Gwybodaeth gyhoeddus barhaus a diweddariadau ymgynghori a rennir drwy wefan CBSC, gwefan Dewch i Gonwy, a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor

3.4.10 Er mwyn bodloni'r amserlenni a osodwyd gan yr Awdurdod, mae cefnogaeth allanol wedi'i chomisiynu, ac mae gwaith paratoi eisoes ar y gweill. Os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu na ddylai'r ymgynghoriad fynd rhagddo, bydd yr holl weithgarwch a gomisiynwyd yn allanol yn cael ei ddirwyn i ben ar unwaith.

3.4.11 Y bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno'r adroddiad ym mis Chwefror; fodd bynnag, byddai gwneud hynny wedi achosi i'r cyfnod ymgynghori orgyffwrdd â chyfnod etholiad y Senedd, gan leihau'r amser sydd ar gael ar gyfer ymgysylltu yn effeithiol. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 20 Mai 2026 ac yn rhedeg am gyfnod o naw wythnos, gan ddod i ben ar 22 Gorffennaf 2026.

3.4.12 Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben, bydd yr holl adborth — yn cynnwys ymatebion i'r arolwg, nodiadau'r cyfarfod a sylwadau ysgrifenedig — yn cael eu casglu a'u dadansoddi. Yna, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei baratoi, gan grynhoi'r canfyddiadau allweddol, themâu cyffredin a safbwyntiau budd-ddeiliaid. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ar 9 Medi 2026, cyn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 24 Medi 2026. Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu yn y pen draw a ddylid mabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr. O dan y Ddeddf, y Cyngor Llawn yn unig sydd â'r pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr ac ni ellir ei ddirprwyo.

3.4.13 Os bydd y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r Ardoll cyn 30 Medi 2026, gellir ei chyflwyno o 1 Hydref 2027, yn dilyn y cyfnod rhybudd gofynnol o 12 mis.

### 3.5 ASESIADAU EFFAITH

3.5.1 Mae'r EIA wedi'i ddatblygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n defnyddio dulliau modelu sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddir mewn asesiadau effaith ar lefel genedlaethol. Mae'r dadansoddiad yn dwyn ar ddata o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ac Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr sy'n cwmpasu'r cyfnod 2022–2024, gyda data STEAM hefyd wedi'i ymgorffori yn yr asesiad cyffredinol (gweler Atodiad A).

3.5.2 Dylid nodi bod argaeledd a dibynadwyedd data perthnasol—yn genedlaethol ac o fewn Conwy—yn gyfyngedig, ac felly mae'r asesiadau a gyflwynir yn yr EIA yn fwriadol geidwadol, gan adlewyrchu'r rhagdybiaethau gwaethaf posibl. Mae'r cyfyngiadau data hyn yn golygu nad yw'n bosibl mesur effeithiau posibl cyflwyno ardoll gyda gradd uchel o sicrwydd, ac mewn sawl maes nid yw'r wybodaeth angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd. Os bydd y Cyngor llawn yn cytuno i fwrw ymlaen i ymgynghori, bydd yr EIA yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r broses honno.

3.5.3 Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau (gweler Atodiad B).Yn ogystal, mae hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar yr Iaith Gymraeg ac yn ystyried y statws economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

3.5.4 Mae'r cyflwyniad arfaethedig o Ardoll Ymwelwyr (Twristiaeth) yn fesur cyllidol a pholisi ac nid yw'n gyfystyr â "phrosiect" o fewn ystyr Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017, gan nad yw'n cynnwys datblygiad ffisegol, gwaith adeiladu, na newid mewn defnydd tir, ac nid yw'n sefydlu caniatâd ar gyfer datblygiad sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Byddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r ardoll yn anuniongyrchol, yn eilaidd, ac yn ddibynnol ar ymatebion ymddygiadol yn y dyfodol a phenderfyniadau dilynol ynghylch dyrannu unrhyw refeniw a gynhyrchir. Ar y sail hon, nid oes angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol statudol. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad cymesur o oblygiadau amgylcheddol posibl er mwyn llywio gwneud penderfyniadau a dangos ystyriaeth i'w ddyletswydd amgylcheddol a cynaliadwyedd (gweler Atodiad C).

3.5.5 Os cynhelir ymgynghoriad, bydd y canfyddiadau'n cael eu hadolygu ar ôl iddo ddod i ben a byddant yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau pan fydd y Cyngor Llawn yn penderfynu a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Nghonwy ym mis Medi 2026.

## 4. DEWISIADAU

### 4.1 Dewis 1 - Parhau a'r Broses Ymgynghori yn Sir Conwy (argymhellir hyn)

Bod CBSC yn symud ymlaen â'r ymgynghoriad ffurfiol ar yr Ardoll Ymwelwyr dewisol arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad mewnol a gweithgareddau a gomisiynwyd yn allanol.

Bydd hyn yn:

- Galluogi'r Cyngor i gael adborth cynhwysfawr gan breswylwyr, busnesau a budd-ddeiliaid.
- Rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad gwybodus ar p'un ai i weithredu'r ardoll erbyn y dyddiad cau hysbysu o ddiwedd Medi 2026.
- Arddangos tryloywder, cynwysoldeb a llywodraethu rhagweithiol.

### 4.2 Dewis 2 – Peidio â Pharhau â'r Ymgynghoriad

Bod CBSC yn penderfynu peidio ag ymgymryd ag ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr ar hyn o bryd. Y goblygiadau fydd:

- Ni fyddai Ardoll Ymwelwyr dewisol yn cael ei gyflwyno yng Nghonwy yn y dyfodol agos.
- Ni fyddai'r Cyngor yn gallu hysbysu Awdurdod Cyllid Cymru erbyn diwedd mis Medi 2026.
- Effaith posibl i enw da os byddai budd-ddeiliaid yn disgwyl ymgynghoriad neu ystyried yr ardoll.
- Byddai'r cyngor yn colli cyfle i ystyried cynhyrchu refeniw ychwanegol i gefnogi isadeiledd twristiaeth a gwasanaethau i dwristiaid. Ar hyn o bryd amcangyfrifir y gallai'r Ardoll Ymwelwyr gynhyrchu £2.1m.
- Gallai peidio â chynnal ymgynghoriad gael ei ystyried fel diffyg ymgysylltiad â modelau ariannu twristiaeth gynaliadwy.
- Mae'r cyngor mewn perygl o beidio â chael y cyfle i ystyried yr Ardoll fel ffordd o fynd i'r afael â phwysau parhaus ar wasanaethau a isadeiledd lleol.
- Colli aliniad gyda chyfeiriad polisi cenedlaethol ac awdurdodau lleol eraill sy'n archwilio'r ardoll.

## 5. YMGYSYLLTU / YMGYNGHORI

**5.1** Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy a Chyfathrebu y mae ei sylwadau fel a ganlyn:

"Rwy'n croesawu'r cyfle i ymgynghori ar yr Ardoll Ymwelwyr gyda budd-ddeiliaid, busnesau, trigolion a thwristiaid. Bydd ymatebion y rhai sy'n ymgysylltu â'r ymgynghoriad yn rhoi adborth gwerthfawr i'r aelodau etholedig gan alluogi aelodau i wneud penderfyniad democrataidd gwybodus ar y mater pwysig hwn."

**5.2** Mae strategaeth ymgynghori gynhwysfawr wedi'i datblygu i sicrhau ymgysylltiad cynhwysol â budd-ddeiliaid allweddol, yn cynnwys preswylwyr, busnesau twristiaeth, darparwyr llety a grwpiau cymunedol. Bydd yr holl adborth a gesglir yn cael ei ddadansoddi a'i adrodd arno i lywio penderfyniad y Cyngor ar p'un ai i barhau â gweithredu'r Ardoll Ymwelwyr neu beidio.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

**6.1** Sicrhawyd cefnogaeth allanol i gynorthwyo gyda chyflawni'r rhaglen ymgynghori.

**6.2** Bydd staff o dimau Datblygu Economaidd a Chyfathrebu yn cael eu dyrannu i arwain a chefnogi gweithgareddau ymgynghori mewnol ac allanol.

**6.3** Pe byddai'r Ardoll Ymwelwyr yn cael ei weithredu, amcangyfrifir y gallai Conwy gynhyrchu oddeutu £2.1 miliwn bob blwyddyn, gyda'r holl refeniw wedi'i glustnodi ar gyfer gwelliannau'n ymwneud â thwristiaeth.

**6.4** Gall unrhyw oedi o ran ei weithredu arwain at golli oddeutu £1 miliwn mewn incwm posibl ar gyfer pob cyfnod o chwech mis sy'n cael ei ohirio.

## 7. CANLYNIADAU'R CYNLLUN CORFFORAETHOL

Mae'r ymgynghoriad arfaethedig ynghylch yr Ardoll Ymwelwyr yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, gan gynnwys:

**7.1** Nod Hirdymor 1: Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn.

- Mae'r broses ymgynghori yn cefnogi gwydnwch sefydliadol trwy hyrwyddo tryloywder, agoredrwydd ac ymgysylltu cydweithredol â budd-ddeiliaid.
- Bydd casglu barn trwy ymgynghori yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ac yn llywio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol mewn ffordd gyson ac atebol.

**7.2** Nod Hirdymor 2: Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

- Mae ymgynghori yn rhoi cyfle i drigolion, busnesau ac ymwelwyr rannu barn ar sut mae gweithgaredd twristiaeth yn rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol.
- Bydd adborth a gesglir yn helpu i nodi blaenoriaethau ar gyfer rheoli twristiaeth sy'n gyfrifol yn amgylcheddol a meysydd lle gallai fod angen stiwardiaeth neu liniaru pellach.

**7.3** Nod Hirdymor 3: Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sy'n llewyrchus, sydd â llai o dlodi, ac sy'n cefnogi dysgu a sgiliau

- Mae ymgynghori yn galluogi cymunedau a busnesau lleol i gyfrannu mewnwelediadau ar y cyfleoedd a'r heriau economaidd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- Bydd tystiolaeth a gesglir yn cefnogi dealltwriaeth gliriach o sut y gallai ymyriadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn y dyfodol lunio ffyniant, cyflogaeth a datblygu sgiliau lleol.

**7.4** Nod Hirdymor 4: Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd

- Mae'r ymgynghoriad yn cynnig llwyfan i gymunedau fynegi barn ar sut mae gweithgaredd twristiaeth yn effeithio ar dai a chymdogaethau lleol, gan gynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â llety tymor byr i ymwelwyr.

- Bydd yr adborth hwn yn helpu i adeiladu darlun mwy cynhwysfawr o sut mae twristiaeth yn rhyngweithio ag argaeledd tai, fforddiadwyedd a lles cymunedol.

**7.5** Nod Hirdymor 5: Mae gan bobl Conwy iechyd a lles da ac maent yn teimlo'n ddiogel

- Mae'r ymgynghoriad yn annog cyfranogiad cynhwysol, gan sicrhau y gall trigolion ac ymwelwyr rannu safbwyntiau ar les, hygyrchedd, diogelwch ac ansawdd mannau cyhoeddus.
- Bydd y mewnwelediadau a gesglir yn cefnogi gwell dealltwriaeth o sut mae isadeiledd twristiaeth a gweithgaredd ymwelwyr yn dylanwadu ar fywyd bob dydd, defnydd cymunedol o ofod a lles cyffredinol y cyhoedd.

## 8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)

Mae'r cynnig yn cefnogi'r pum ffordd o weithio:

- Hirdymor: Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus a chynaliadwy ynghylch datblygu polisïau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn y dyfodol.

- Atal: Drwy ymgysylltu'n gynnar â thrigolion, busnesau ac ymwelwyr, bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi problemau posibl neu effeithiau anfwriadol, gan alluogi mynd i'r afael â'r rhain yn rhagweithiol.

- Integreiddio: Mae'r broses ymgynghori wedi'i halinio ag amcanion twristiaeth, datblygu economaidd a lles lleol a chenedlaethol perthnasol, gan sicrhau bod y dystiolaeth a gesglir yn cyfrannu at ystyriaethau polisi ehangach.

- Cydweithio: Bydd y broses yn cynnwys gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a budd-ddeiliaid, gan gynnwys drwy Fforwm Partneriaeth yr Ardoll Ymwelwyr, i sicrhau dull cydlynol a rennir o ymgysylltu.

- Cyfranogi: Mae'r ymgynghoriad yn darparu mecanwaith agored a hygyrch i'r cyhoedd a budd-ddeiliaid gyfrannu eu barn, gan sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau yn cael eu casglu a'u hystyried.

Nodau Lles
Mae'r ymgynghoriad yn cyfrannu at sawl nod llesiant, gan gynnwys cefnogi Cymru lewyrchus, wydn a chydlynol drwy sicrhau bod penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ymgysylltu cynhwysfawr, cynhwysol a seiliedig ar dystiolaeth.

## 9. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB A'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

- Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei ddylunio i fod yn gynhwysol a hygyrch i'r holl grwpiau.
- Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) llawn wedi'i gynnal (Atodiad B) sydd hefyd yn ystyried yr effaith bosibl ar yr Iaith Gymraeg ac yn ystyried y statws

economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Bydd yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.

- Bydd y broses ymgynghori yn gwbl ddwyieithog.

**10. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU**

Mae'r ymgynghoriad yn cyd-fynd â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chanllawiau cysylltiedig. Fel rhan o'r broses ymgynghori:

- Bydd gweithdrefnau mewnol yn cael eu datblygu i gefnogi rheoli'r ymgynghoriad, ac i lunio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer gweithredu a dyrannu refeniw pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gyflwyno ardoll.
- Fel tâl dewisol, rhaid i'r ardoll gydymffurfio â'r fframwaith statudol, gan gynnwys
y gofyniad i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ac i sicrhau bod unrhyw arian a godir yn cael ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi isadeiledd a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Bydd Gwasanaethau Cyfreithiol yn chwarae rhan allweddol wrth gynghori ar ddyluniad yr ymgynghoriad a sicrhau cydymffurfiaeth drwyddo draw.
- Bydd fframweithiau llywodraethu yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r ardoll a'i gofynion ymgynghori.
- Mae'r dull ymgynghori wedi'i alinio'n llawn â blaenoriaethau strategol Partneriaeth Cyrchfan Conwy a Chynllun Gwynedd ac Eryri 2035. Er nad oes cyfeiriad penodol at yr ardoll yn y naill ddogfen na'r llall, mae ei nod cyffredinol—i gefnogi rheoli cyrchfannau cynaliadwy—yn ategu'n uniongyrchol yr amcanion a nodir yn y ddau gynllun.
- Bydd Fforwm Partneriaeth Ardoll Ymwelwyr Twristiaeth yn cael ei sefydlu i roi cyngor ar ddatblygu polisïau ac i helpu i arwain penderfyniadau ar sut y dylid buddsoddi refeniw.

**11. GOBLYGIADAU O RAN RISG**

Mae’r risgiau allweddol yn cynnwys:

- **Risg i Enw Da**

  Gall peidio â chynnal ymgynghoriad arwain at ganfyddiadau o dryloywder annigonol neu ddiffyg cyfranogiad budd-ddeiliaid, a allai danseilio hyder y cyhoedd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Gall cynnal ymgynghoriad heb gynllun clir na dull ymgysylltu effeithiol hefyd arwain at feirniadaeth gan fudd-ddeiliaid sy'n teimlo nad oedd eu barn wedi'i cheisio na'i chynrychioli'n ddigonol.

- **Risg Llywodraethu a Chydymffurfiaeth**

  Gall methu â chynnal ymgynghoriad pan ddisgwylir neu pan fo angen amlygu'r Cyngor i risgiau gweithdrefnol neu gydymffurfiaeth, gan gynnwys heriau posibl ac oedi wrth symud penderfyniadau polisi yn y dyfodol ymlaen. I'r gwrthwyneb, gallai cynnal ymgynghoriad heb drefniadau llywodraethu cadarn arwain at gwestiynau ynghylch tegwch, hygyrchedd neu broses briodol.

- **Risg Dylunio Gweithredol a Pholisi**

  Heb ymgynghori, efallai na fydd gan y Cyngor fewnwelediadau hanfodol i sut mae trigolion, busnesau ac ymwelwyr yn gweld y cynnig Ardoll Ymwelwyr, ei effeithiau posibl, neu'r ystyriaethau ymarferol dan sylw. Gallai hyn arwain at ddatblygu polisi yn y dyfodol yn anghyflawn neu heb wybodaeth dda. Gallai cynnal ymgynghoriad heb gynllunio neu adnoddau digonol effeithio'n yr un modd ar ansawdd, cynrychiolaeth a dibynadwyedd y canfyddiadau.

- **Risg Perthynas â Budd-ddeiliaid**

  Gall diffyg ymgynghori niweidio perthnasoedd â budd-ddeiliaid allweddol, gan gynnwys y sector twristiaeth, sefydliadau cymunedol a thrigolion. I'r gwrthwyneb, gall ymgynghoriad sy'n cael ei gyfathrebu'n wael neu ei gyflwyno'n anghyson greu ymddieithriad neu ddiffyg ymddiriedaeth ymhlith budd-ddeiliaid.

- **Risg Amseru a Chydlynu**

  Gallai peidio â chynnal ymgynghoriad arwain at gamliniad â phrosesau rhanbarthol neu genedlaethol, gan leihau cyfleoedd i gydweithio. Os cynhelir ymgynghoriad ond nad yw wedi'i amseru na'i gydlynu'n dda, gall gyfyngu ar gyfranogiad neu leihau defnyddioldeb y dystiolaeth a gesglir.

**Mesurau Lliniaru**

Gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy:

- Sefydlu cynllun ymgynghori clir, wedi'i strwythuro'n dda
- Ymgysylltu'n gynnar â budd-ddeiliaid drwy sianeli sefydledig
- Sicrhau prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau tryloyw
- Cydlynu â phartneriaid rhanbarthol lle bo'n briodol
- Darparu cyfathrebu clir a deunyddiau ymgynghori hygyrch

**12. SYLWADAU’R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

**12.1** Amherthnasol

**13. SYLWADAU’R GRŴP ADOLYGU ADRODDIADAU**

Mae’r GAA yn cefnogi’r adroddiad.

**Atodiadau:**

- Atodiad A - Asesiad o Effaith Economaidd (EIA)
- Atodiad B - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i gynnwys yr Iaith Gymraeg
- Atodiad C - Asesiad o Effaith Amgylcheddol
- Atodiad D - Cynnig Ardoll Conwy i gynnwys Fframwaith Ymgynghori ac Amserlen